**Cyngor Adnewyddu'r Economi**
**Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad**

## Diben y papur

1. Papur i'w nodi – darparu'r newyddion diweddaraf ar gynigion i ddiwygio Llywodraeth Leol yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol.

## Cyd-destun

2. Cyhoeddwyd y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' ar 31 Ionawr.

3. Amlinellodd y Papur Gwyn drefniadau arfaethedig ar gyfer gweithio rhanbarthol, rôl gryfach i gynghorau a chynghorwyr, fframwaith ar gyfer unrhyw uno gwirfoddol a'r ffordd ymlaen i gynghorau cymuned. Amlinellodd hefyd statws presennol cynigion blaenorol Llywodraeth Cymru, a oedd yn rhan o Fil drafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2015.

4. Yn ogystal, gwahoddodd y Papur Gwyn sylwadau cychwynnol ar gyfres o welliannau i drefniadau etholaethol ar gyfer llywodraeth leol. Mae hyn yn cynnwys mesurau i wella trefniadau cofrestru pleidleiswyr a phleidleisio, megis cofrestr Cymru gyfan a phleidleisio drwy'r post neu bleidleisio electronig, ynghyd â gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Yn ogystal, gofynnwyd am sylwadau ar gyflwyno pwerau i gynghorau fel y gallant ddewis mabwysiadu naill ai 'system y cyntaf i'r felin' neu'r 'system un bleidlais drosglwyddadwy'.

5. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 11 Ebrill, a chafwyd 167 o ymatebion:

| Nifer yr ymatebwyr | |
|---|---|
| Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall | 47 |
| Corff Cynrychiadol, Cymdeithas neu Gorff Proffesiynol | 33 |
| Cyngor Tref neu Gymuned | 27 |
| Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol | 19 |
| Aelod o'r cyhoedd | 9 |
| Grŵp / Plaid Wleidyddol | 3 |
| Undeb Llafur | 3 |
| Y Trydydd Sector | 2 |
| Arall | 24 |
| Cyfanswm | 167 |

6. Cyhoeddwyd y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 18 Gorffennaf, ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

7. Dyma'r negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad:

- Cafodd y cynnig y dylai fod mwy o weithio rhanbarthol ei dderbyn yn gyffredinol ar draws y rhan fwyaf o grwpiau rhanddeiliaid, ond roedd yna wahaniaeth barn ynglŷn ag a ddylai gweithio rhanbarthol gael ei orfodi neu fod yn wirfoddol. Roedd ymatebion Llywodraeth Leol yn enwedig yn tueddu i ffafrio trefniadau gwirfoddol. Pwysleisiodd ymatebion Undebau Llafur yr angen i ymgysylltu â'r gweithlu, ynghyd â materion yn ymwneud ag atebolrwydd democrataidd ac ansawdd gwasanaethau.

- Cafodd yr achos dros weithio rhanbarthol yn y meysydd a gynigiwyd yn y Papur Gwyn eu derbyn yn gyffredinol, ond gyda gwahanol gafeatau a sylwadau ynghylch sut y byddai'n gweithio yn ymarferol. Roedd yna rai swyddogaethau penodol lle teimlwyd y byddai'n well pe baent yn aros yn swyddogaethau lleol, er enghraifft, agweddau ar gasglu gwastraff ac amryw o feysydd eraill, gan gynnwys gweithgarwch datblygu economaidd, lle teimlwyd fod y gallu i barhau i weithio ochr yn ochr â gweithgarwch rhanbarthol yn bwysig. Mewn perthynas â datblygu economaidd a swyddogaethau cynllunio defnydd tir strategol a thrafnidiaeth strategol, roedd yna gefnogaeth gyffredinol dros barhau â'r rhain ar lefel ranbarthol.

- O ran y trefniadau llywodraethu arfaethedig, roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o fanylion ynglŷn â'r cynigion ar gyfer Pwyllgorau Cydlywodraethu.

- Ychydig iawn o awydd oedd gan Lywodraeth Leol i gael eu gorfodi i rannu gwasanaethau ond, er hynny, nodwyd amryw o feysydd sy'n cynnig potensial.

- Ni chafodd y cynnig i roi opsiwn i Awdurdodau Lleol fabwysiadu'r system Pwyllgor gefnogaeth gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol, ond cafodd fwy o gefnogaeth ymhlith yr ymatebwyr ehangach.

- Cafodd y cynnig i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 gefnogaeth gref, gydag awdurdodau lleol yn ffafrio cadw'r un dull pleidleisio ledled Cymru, yn hytrach na chael yr opsiwn i ddewis eu system etholiadol. Roedd y farn ar dreialu technoleg newydd mewn systemau pleidleisio, er enghraifft, pleidleisio ar-lein neu e-gyfrif, yn gymysg – gyda chefnogaeth gan oddeutu hanner yr ymatebwyr, ond pryderon neu wrthwynebiadau gan yr hanner arall.

**Camau nesaf**

8. Yn ei ddatganiad blynyddol ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Mehefin, cadarnhaodd y Prif Weinidog Fil Llywodraeth Leol yn ail flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol (2018). Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ddatganiad ar 18 Gorffennaf 2017 yn amlinellu'r canlynol:

   - Cynlluniau ar gyfer adolygiad o'r gwraidd i'r brig o gynghorau tref a chymuned, a fydd yn ystyried yr amrywiad presennol ar draws y sector a sut y gellid galluogi pob cyngor tref a chymuned i fod mor effeithiol â'r gorau yn y maes.
   - Ymgynghoriad manylach ar etholiadau lleol a fydd yn gofyn am farn pobl ar amryw o awgrymiadau ar gyfer moderneiddio trefniadau ac am syniadau pellach ar gyfer datblygiad.
   - Y ffordd ymlaen ar ddiwygio prif gynghorau, gan gynnwys ymagwedd newydd at weithio rhanbarthol i ddarparu'r adnoddau priodol i gynghorau i sicrhau eu bod yn gadarn yn ariannol ac o ran y gwasanaethau maent yn eu darparu.

9. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi mynegi ei farn y dylai'r Bil Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd yn y datganiad deddfwriaethol gael ei gyflwyno tua diwedd y flwyddyn ddeddfwriaethol (ym mis Mehefin/Gorffennaf 2018). Bydd hyn yn galluogi sgyrsiau i barhau ynghylch y manylion ac yn sicrhau bod y cynigion terfynol yn ymarferol ac effeithiol.